OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1878 (Cy. 275)

# TAI, CYMRU
# CAFFAEL TIR, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Tachwedd 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 30(5) o Ddeddf Digolllediad Tir 1973(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 10 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Digollediad Tir 1973.

**Symiau diwygiedig y taliad colli cartref**

**2.** Pan fo'r dyddiad dadleoli ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ei ôl—

(a) £53,000 yw uchafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf;

(b) £5,300 yw isafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf; ac

(c) £5,300 yw swm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(2) o'r Ddeddf.

(**1**) 1973 p. 26; amnewidwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) gydag effaith o 25 Medi 1991 (*gweler* erthygl 3 o O.S. 1991/2067).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Dirymu ac arbedion**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2008(**3**) wedi eu dirymu.

(2) Bydd y Rheoliadau a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â dadleoli sy'n digwydd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

9 Tachwedd 2015

(**3**) O.S. 2008/2845 (Cy. 255).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Digolledu Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sydd â buddiant perchennog mewn annedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu hefyd swm y taliad colli cartref sy'n daladwy mewn unrhyw achos arall.

Mae hawl gan berson a ddadleolir o annedd drwy brynu gorfodol neu o dan amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf i gael taliad colli cartref. Cafodd y sail bresennol ar gyfer asesu swm y taliad colli cartref ei sefydlu drwy ddiwygiadau a wnaed i'r Ddeddf a geir yn Neddf Cynllunio a Digolledu 1991.

Mewn achosion pan fo gan berson sy'n meddiannu annedd ar ddyddiad y dadleoli fuddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu bod swm y taliad colli cartref yn cael ei gyfrifo fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a hynny'n ddarostyngedig i uchafswm ac isafswm.

Mae adran 30(2) o'r Ddeddf yn rhagnodi swm y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £47,000 i £53,000 ac mae rheoliad 2(b) yn cynyddu'r isafswm o £4,700 i £5,300. Mae rheoliad 2(c) yn cynyddu'r taliad colli cartref sy'n daladwy, o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, mewn unrhyw achos arall o £4,700 i £5,300.

Dim ond uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sydd wedi eu newid ac nid oes unrhyw newid yn y ganran sy'n daladwy o werth ar y farchnad buddiant y person sydd wedi ei ddadleoli yn yr annedd.

Mae'r symiau diwygiedig yn gymwys pan fo'r dadleoli'n digwydd ar 10 Rhagfyr 2015 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2008 yn parhau i gael effaith o ran dadleoli sy'n digwydd cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ond ar wahân i hynny maent yn cael eu dirymu.